

# Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Gareth Williams  
Dyddiad: Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 14.30 0300 200 6362  
[SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

### 2.1 SL(5)155 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018

(Tudalennau 1 – 36)

CLA(5)-30-17 – Papur 1 – Rheoliadau

CLA(5)-30-17 – Papur 2 – Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

CLA(5)-30-17 – Papur 3 – Adroddiad

## 3 Is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i ddim gweithdrefn

### 3.1 SL(5)157 – Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ffioedd Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2017

(Tudalennau 37 – 50)

CLA(5)-30-17 – Papur 4 – Rheoliadau

CLA(5)-30-17 – Papur 5 – Adroddiad

## 4 Papurau i'w nodi



**4.1 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2017: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol at y Cadeirydd – 21 Medi 2017**

(Tudalen 51)

PTN 1 – Llythyr gan Gadeirydd PACAC at y Cadeirydd – 21 Medi 2017

(Saesneg yn unig)

**4.2 Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin – 28 Tachwedd 2017**

(Tudalennau 52 – 54)

PTN 2 – Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd PACAC – 28 Tachwedd 2017

**4.3 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Llythyr gan Robin Walker AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – 4 Rhagfyr 2017**

(Tudalennau 55 – 70)

PTN 3 – Llythyr gan Robin Walker AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – 4 Rhagfyr 2017 (Saesneg yn unig)

**4.4 Rheoliadau Deddf Cymru 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2017**

(Tudalennau 71 – 74)

PTN 4 – Rheoliadau (Saesneg yn unig)

**4.5 Ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddatblygu Deddf ar ddehongli deddfwriaeth Cymru**

(Tudalennau 75 – 97)

PTN 5 – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru – 6 Rhagfyr

PTN 6– Crynodeb o'r ymatebion

**5 Ymchwiliad i'r pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth: Ymatebion i'r ymgynghoriad**

(Tudalennau 98 – 104)

CLA(5)-30-17 – Papur 6 – RSPB Cymru (Saesneg yn unig)

CLA(5)-30-17 – Papur 7 – Cytûn

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Eitemau 7, 8, 9 10 a 11.

**7 Ymchwiliad i'r pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth: Dadansoddiad o farn holl bwyllgorau seneddol y DU ar graffu ar bwerau dirprwyedig ym Mil yr UE (Ymadael)**

(Tudalennau 105 – 115)

CLA(5)-30-17 – Papur 8 – Briff ymchwil (Saesneg yn unig)

**8 Bil yr UE (Ymadael): Cynnydd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael):**

(Tudalennau 116 – 120)

CLA(5)-30-17 – Papur 9 – Briff ymchwil (Saesneg yn unig)

**9 Bil yr UE (Ymadael): Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Trafod yr adroddiad drafft**

(Tudalennau 121 – 170)

CLA(5)-30-17 – Papur 10 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

CLA(5)-30-17 – Papur 11 – Briff ymchwil (Saesneg yn unig)

CLA (5) –30-17 – Papur 12 – Briff cyfreithiol (Saesneg yn unig)

CLA(5)-30-17- Papur 13 – Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

**10 Gohebiaeth gan y Llywydd: Diwygio'r Cynulliad. Ystyried llythyr drafft**

(Tudalen 171)

CLA(5)-30-17 – Papur 14 – Llythyr drafft (Saesneg yn unig)

**11 Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 172 – 181)

CLA(5)-30-17 – Papur 15 – Blaenraglen waith (Saesneg yn unig)

CLA(5)-30-17 – Papur 16 – Ymchwiliadau posib yn y dyfodol (Saesneg yn unig)

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

8 Ionawr 2018

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2018 Rhif (Cy. )**

**Y DRETH GYNGOR, CYMRU**

Rheoliadau Cynlluniau  
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor  
(Gofynion Rhagnodedig a'r  
Cynllun Diofyn) (Cymru)  
(Diwygio) 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B iddi.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu pa ostyngiadau sydd i fod yn gymwys i'r symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu ddosbarthiadau o bersonau, yr ystyria'r awdurdod eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cael effaith, mewn cysylltiad ag anheddau sydd wedi eu lleoli yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 4(a)(i) i (v), 5, 9(a)(i) i (v), a 10(a), (c) ac (e) yn cynyddu rhai o'r ffigurau a ddefnyddir wrth gyfrifo a oes gan berson yr hawl i gael gostyngiad ai peidio, a swm y gostyngiad hwnnw. Mae'r ffigurau uwchraddedig yn ymwneud â didyniadau annibynyddion (sef addasiadau i uchafswm y gostyngiad y mae hawl gan berson i'w gael, er mwyn cymryd i ystyriaeth oedolion sy'n byw yn yr annedd ac nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd); ac â'r swm cymwysadwy mewn perthynas â chais am ostyngiad (sef y swm y cymherir incwm ceisydd ag ef, er mwyn penderfynu swm y gostyngiad y mae hawl gan y ceisydd i'w gael). Gwneir yr un diwygiadau mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 17(a) i (e), 24 a 25(a), (c) ac (e).

Gwneir y diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 3(a)(iii) ac (c), 4(d)(ii), 6, 9(d)(ii) a (iii), 10(b) a (d) ac 11 o ganlyniad i ddarpariaeth yn adrannau 15 ac 16 o Ddeddf Diwygio Lles 2016. O 3 Ebrill 2017, yn gyffredinol mae hawlogaeth i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar ba un a oes gan berson alluedd cyfyngedig ar gyfer gwaith ai peidio yn hytrach nag ar ba un a yw'n derbyn swm elfen gweithgaredd perthynol i waith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae rheoliad 3(a)(iii) yn mewnosod diffiniad newydd yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig, sef "aelod o grŵp gweithgaredd perthynol i waith". Mae'r diwygiadau dilynol yn cyflwyno cyfeiriadau at sefyllfa pan fo ceisydd neu bartner ceisydd yn aelod o grŵp gweithgaredd perthynol i waith neu â galluedd cyfyngedig ar gyfer gwaith. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 16(a)(iii) ac (c), 17(f), 22(b) ac (c), 25(b) a (d), 26 a 28.

Gwneir y diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 3(b), 4(d)(i) a 9(d)(i) o ganlyniad i ddarpariaeth yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Mae rheoliad 3(b) yn diwygio'r diffiniad o "cartref gofal" i gynnwys cyfeiriad at wasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf 2016. Mae rheoliadau 4(d)(i) a 9(d)(i) yn rhoi cyfeiriad at berson sydd wedi ei gyflogi, neu sy'n gweithredu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, i ddarparu gofal a chymorth gan ddarparwr gwasanaeth cymorth cartref o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf 2016 yn lle'r cyfeiriad at weithiwr gofal cartref. Mae rheoliad 16(b) yn gwneud yr un diwygiad i'r diffiniad o "cartref gofal" yn y Rheoliadau Cynllun Diofyn, ac mae'r cyfeiriad a amnewidiwyd at weithiwr gofal cartref wedi ei fewnosod gan reoliad 22(a).

Gwneir y diwygiad i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliad 4(b)(i) o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau 2014 sy'n disodli'r lwfans a'r taliad

profedigaeth â lwfans cymorth profedigaeth. Rhoddwyd “taliad cymorth profedigaeth” yn lle’r cyfeiriad at “taliad profedigaeth” yn y ddarpariaeth sy’n ymdrin ag ystyr incwm mewn cysylltiad â phensiynwyr. Gwneir yr un diwygiad i’r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 18(a).

Mae’r diwygiadau a wneir i’r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 3(a)(i), (ii), (iv), (v) a (d), 8(a), 9(a)(vii), (c), (e) ac (f), 12(b), 13(a) a (b) a 14 yn diffinio ac yn ychwanegu cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain a Chronfa Argyfwng We Love Manchester at y rhestr o gynlluniau neu ymddiriedolaethau y mae taliadau ohonynt i’w diystyru wrth gyfrifo incwm neu gyfalaf at ddibenion asesu hawlogaeth person i ostyngiad treth gyngor. Gwneir yr un diwygiadau i’r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 16(a)(i), (ii), (iv), (v) a (d), 17(g), 21, 23, 29(b), 30(a) a 31(a) i (c).

Mae’r diwygiadau a wneir i’r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 4(c) a 9(b) yn egluro’r dyddiad y mae enillion ceisydd yn cael eu hystyried pan fo ceisydd yn cychwyn cyflogaeth neu pan fo enillion ceisydd yn newid er mwyn sicrhau cysondeb â’r ddarpariaeth gyfatebol yn y Rheoliadau ynghylch newid mewn amgylchiadau. Gwneir yr un diwygiadau i’r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 19 a 20.

Mae’r diwygiadau a wneir i’r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 4(a)(vii), 8(b), 9(a)(viii) a (ix) a 13(c) yn darparu bod taliadau a wneir o dan ymddiriedolaethau penodol, neu gan ymddiriedolaethau penodol, a sefydlir at y diben o roi cymorth a chynhorthwy i bobl anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd y cyffur o’r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, i’w diystyru wrth gyfrifo cyfalaf at ddibenion asesu hawlogaeth person i ostyngiad treth gyngor, ac wrth bennu incwm annibynyddion. Gwneir yr un diwygiadau i’r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 17(i), 30(b) a 31(d).

Mae’r diwygiadau a wneir i’r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 4(b)(ii), 7 a 12(a) yn diwygio’r rhestrau o incwm ac eithrio enillion wrth bennu pa un a yw person yn gymwys i gael gostyngiad fel bod unrhyw daliad a wneir gan lywodraeth i ddioddefwyr erledigaeth gan Sosialwyr Cenedlaethol yn cael ei ddiystyru. Gwneir yr un diwygiadau i’r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 18(b), 27 a 29(a).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau

hyn. Gellir cael copi oddi wrth: yr Is-adran Cyllid  
Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau  
Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,  
Caerdydd, CF10 3NQ.



*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2018 Rhif (Cy. )**

**Y DRETH GYNGOR, CYMRU**

**Rheoliadau Cynlluniau  
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor  
(Gofynion Rhagnodedig a'r  
Cynllun Diofyn) (Cymru)  
(Diwygio) 2018**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1) a pharagraffau 2 i 7 o Atodlen 1B iddi.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a

---

(1) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 4 iddi.

wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor” (“*council tax reduction scheme*”) yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(1), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiodyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

### **Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013**

2. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 14.

3. Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1)—

(a) yn y man priodol mewnosoder—

(i) “ystyr “cynllun gwaed cymeradwy” (“*approved blood scheme*”) yw—

(a) cynllun a sefydlir neu a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu ymddiriedolaeth a sefydlir gyda chyllid a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, at y diben o roi digollediad mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei heintio gan gynhyrchion gwaed halogedig; neu

(b) cynllun a sefydlir o dan adrannau 1 i 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(2) ac a weinyddir gan Ymddiriedolaeth Felindre(3) at y diben o wneud taliadau a rhoi cymorth i unigolion sydd wedi eu heintio â Hepatitis C, HIV neu'r ddau, drwy waed halogedig neu gynhyrchion gwaed halogedig a ddefnyddir gan y GIG, neu mewn cysylltiad â hynny;”;

(ii) “ystyr “Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain” yw'r cwmni sy'n dwyn yr enw “the London Emergencies Trust” (rhif 09928465) a ymgorfforwyd ar 23 Rhagfyr 2015 a'r elusen gofrestrdedig

---

(1) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21) ac O.S. 2017/46 (Cy. 20).

(2) 2006 p. 42.

(3) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre o dan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838, diwygiwyd gan O.S. 1999/826).

- sy'n dwyn yr enw hwnnw (rhif 1172307) a sefydlwyd ar 28 Mawrth 2017;”;
- (iii) “ystyr “aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith” (“*member of the work-related activity group*”) yw person sydd â galluedd cyfyngedig ar gyfer gwaith, neu berson a drinnir felly, o dan naill ai—
- (a) Rhan 5 o Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008(1) ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 30 o’r Rheoliadau hynny; neu
- (b) Rhan 4 o Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2013(2) ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 26 o’r Rheoliadau hynny;”;
- (iv) “ystyr “Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban” yw’r cynllun sy’n dwyn yr enw “the Scottish Infected Blood Support Scheme” a weinyddir gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin (a gyfansoddwyd gan adran 10 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yr Alban) 1978(3);”;
- (v) “ystyr “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” yw’r elusen gofrestrdedig sy’n dwyn yr enw “the We Love Manchester Emergency Fund” (rhif 1173260) a sefydlwyd ar 30 Mai 2017;”;
- (b) yn lle’r diffiniad o “cartref gofal” (“*care home*”) rhodder—
- “mewn perthynas â “cartref gofal” (“*care home*”)—
- (a) yn Lloegr mae iddo’r ystyr a roddir i “care home” gan adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(4);
- (b) ei ystyr yng Nghymru yw man lle y darperir gwasanaeth cartref gofal, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(5), i oedolion yn gyfan gwbl neu’n bennaf;
- (c) yn yr Alban mae iddo’r ystyr a roddir i “care home service” gan baragraff 2 o Atodlen 12 i Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010(6); a

---

(1) O.S. 2008/794.  
 (2) O.S. 2013/379.  
 (3) 1978 p. 29.  
 (4) 2000 p. 14.  
 (5) 2016 dccc 2.  
 (6) 2010 dsa 8.

- (d) yng Ngogledd Iwerddon mae iddo'r ystyr a roddir i "nursing home" gan erthygl 11 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003(1) neu'r ystyr a roddir i "residential care home" gan erthygl 10 o'r Gorchymyn hwnnw;"
- (c) yn lle'r diffiniad o "lwfans cyflogaeth a chymorth prif wedd" ("*main phase employment and support allowance*") rhodder—
- "ystyr "lwfans cyflogaeth a chymorth prif wedd" ("*main phase employment and support allowance*"), ac eithrio yn Rhan 1 o Atodlen 7, yw lwfans cyflogaeth a chymorth pan fo—
- (a) cyfrifo'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r ceisydd yn cynnwys elfen o dan adran 2(1)(b) neu 4(2)(b) o Ddeddf Diwygio Lles 2007; neu
- (b) y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith;"
- (d) yn y diffiniad o "person cymwys" ("*qualifying person*"), ar ôl "Sefydliad Caxton" mewnosoder, "cynllun gwaed cymradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester".

**4. Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad: pensiywyr)—**

- (a) ym mharagraff 3 (didyniadau annibyddyddion: pensiywyr)—
- (i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "£12.70" rhodder "£13.10";
- (ii) yn is-baragraff (1)(b), yn lle "£4.20" rhodder "£4.35";
- (iii) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "£200.00" rhodder "£205.00";
- (iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£200.00", "£346.00" ac "£8.40" rhodder "£205.00", "£355.00" ac "£8.70" yn y drefn honno;
- (v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£346.00", "£430.00" a "£10.60" rhodder "£355.00", "£440.00" a "£10.95" yn y drefn honno;
- (vi) yn is-baragraff (8)(a) ar ôl "lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm" mewnosoder "a phan na fo'r

---

(1) 2003 Rhif 431 (G.I. 9).

annibynnydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;

(vii) yn lle is-baragraff (9) rhodder—

“(9) Wrth gymhwyso is-baragraff (2) mae'r canlynol i'w diystyru o incwm wythnosol gros yr annibynnydd—

(a) unrhyw lwfans gweini, lwfans byw i'r anabl, taliad annibyniaeth bersonol, neu TALIA a dderbynnir gan yr annibynnydd;

(b) unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o'r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”;

(b) ym mharagraff 10(1) (ystyr “incwm”: pensiynewyr)—

(i) yn lle paragraff (j)(xiii) rhodder—

“(xiii) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014(1)”;

(ii) yn lle paragraff (m) rhodder—

“(m) pensiwn a delir gan lywodraeth i ddioddefwyr erledigaeth gan Sosialwyr Cenedlaethol”;

(c) ym mharagraff 11 (cyfrifo incwm wythnosol: pensiynewyr)—

(i) yn is-baragraff (3A)—

(aa) ym mharagraff (a) yn lle “ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio” rhodder “ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd”;

(bb) yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—

“(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo'r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae'r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y

---

(1) 2014 p. 19.

cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu

- (c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd yn newid, er mwyn ei gwneud yn ofynnol ailgyfrifo o dan y paragraff hwn, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd.”;

(ii) yn is-baragraff (4A)—

- (aa) ym mharagraff (a) yn lle “ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio” rhodder “ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd”;

- (bb) yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—

“(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo’r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae’r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu

- (c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd o gyflogaeth yn newid a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd.”;

(d) ym mharagraff 19 (trin costau gofal plant: pensiynwyr)—

- (i) yn lle is-baragraff (8)(l) rhodder—

“(1) gan berson sydd wedi ei gyflogi, neu sy’n gweithredu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, i ddarparu gofal a chymorth gan y darparwr gwasanaeth cymorth cartref, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;”;

- (ii) yn is-baragraff (11)(c) ar ôl “galluedd cyfyngedig yr aelod arall ar gyfer

gwaith” y tro cyntaf y mae’n ymddangos, mewnosoder “neu oherwydd y byddai’r aelod arall o’r cwpl yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”.

**5. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensïynwyr)—**

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (Iwfansau personol)—
  - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£159.35” a “£172.55” rhodder “£163.00” a “£176.40” yn y drefn honno;
  - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£243.25” a “£258.15” rhodder “£248.80” a “£263.80” yn y drefn honno;
  - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£243.25” a “£83.90” rhodder “£248.80” a “£85.80” yn y drefn honno;
  - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£258.15” a “£85.60” rhodder “£263.80” a “£87.40” yn y drefn honno;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
  - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£62.45” ym mhob man y mae’n digwydd rhodder “£64.30” ac yn lle “£124.90” rhodder “£128.60”;
  - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£24.78” rhodder “£25.48”;
  - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£60.90” rhodder “£62.86”;
  - (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£34.95” rhodder “£36.00”.

**6. Yn Atodlen 3 (symiau a ddiystyrir o enillion ceisydd: pensïynwyr), ym mharagraff 5(1)(d)(ii), yn lle “neu’r elfen gweithgaredd perthynol i waith” rhodder “yn codi.”**

**7. Yn Atodlen 4 (symiau sydd i’w diystyru wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: pensïynwyr), yn lle paragraff 1(g), rhodder—**

“(g) pensiwn a delir gan lywodraeth i ddioddefwyr erledigaeth gan Sosialwyr Cenedlaethol.”

**8. Yn Atodlen 5 (diystyriadau cyfalaf: pensïynwyr)—**

- (a) ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;

(b) ar ôl paragraff 28A mewnosoder—

“**28B.** Unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o’r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”

**9.** Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad o dan gynllun awdurdod, swm unrhyw ostyngiad, a chyfrifo incwm a chyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

(a) ym mharagraff 5 (didyniadau annibynnyddion: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

(i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “£12.70” rhodder “£13.10”;

(ii) yn is-baragraff (1)(b), yn lle “£4.20” rhodder “£4.35”;

(iii) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “£200.00” rhodder “£205.00”;

(iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£200.00”, “£346.00” ac “£8.40” rhodder “£205.00”, “£355.00” ac “£8.70” yn y drefn honno;

(v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£346.00”, “£430.00” a “£10.60” rhodder “£355.00”, “£440.00” a “£10.95” yn y drefn honno;

(vi) yn is-baragraff (8)(a) ar ôl “lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm” mewnosoder “neu pan na fo’r annibynnydd yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;

(vii) yn is-baragraff (9)(b), ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “, cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;

(viii) ar ddiwedd is-baragraff (9)(c) yn lle “.” rhodder “.”;

(ix) ar ôl is-baragraff (9)(c) mewnosoder—

“(d) unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o’r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”;



- (b) ym mharagraff 10A (y dyddiad y cymerir i ystyriaeth incwm sy'n cynnwys enillion o gyflogaeth fel enillydd cyflogedig: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—
- (i) yn is-baragraff (a) yn lle “ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio” rhodder “ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd”;
- (ii) yn lle is-baragraffau (b) ac (c) rhodder—
- “(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo'r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae'r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu
- (c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd o gyflogaeth yn newid a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd.”;
- (c) ym mharagraff 19(4)(a) (incwm tybiannol: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “, cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
- (d) ym mharagraff 21 (trin costau gofal plant)—
- (i) yn lle is-baragraff (8)(l) rhodder—
- “(1) gan berson sydd wedi ei gyflogi, neu sy'n gweithredu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, i ddarparu gofal a chymorth gan ddarparwr gwasanaeth cymorth cartref, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; neu ”;
- (ii) yn is-baragraff (11)(a), ar ôl “neu'r elfen gweithgaredd perthynol i waith” mewnosoder “neu y byddai'r aelod arall yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
- (iii) yn is-baragraff (11)(c), ar ôl “neu'r elfen gweithgaredd perthynol i waith” mewnosoder “neu y byddai'r aelod arall yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
- (e) ym mharagraff 27(7) (incwm a drinnir fel cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder

“cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester,”;

- (f) ym mharagraff 30 (cyfalaf tybiannol: personau nad ydynt yn bensynwyr), yn is-baragraff (4)(a), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”.

**10.** Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£73.85” ym mhob man y mae’n digwydd rhodder “£76.10” ac yn lle “£58.50” rhodder “£60.25”;
  - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£73.85” rhodder “£76.10”;
  - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£116.00” rhodder “£119.50”;
- (b) ym mharagraff 2(a) ar ôl “ceisydd” mewnosoder “neu os yw’r ceisydd yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
- (c) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£32.55” a “£46.40” rhodder “£33.55” a “£47.80” yn y drefn honno;
  - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£62.45” ym mhob man y mae’n digwydd rhodder “£64.30” ac yn lle “£124.90” rhodder “£128.60”;
  - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£60.90” rhodder “£62.86”;
  - (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£34.95” rhodder “£36.00”;
  - (v) yn is-baragraff (5), yn lle “£24.78”, “£15.90” a “£22.85” rhodder “£25.48”, “£16.40” a “£23.55” yn y drefn honno;
- (d) yn Rhan 5 (yr elfennau), ym mharagraff 18(c)(ii) hepgorer “neu’r elfen gweithgaredd perthynol i waith”;
- (e) yn Rhan 6 (symiau’r elfennau), ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle “£36.55” rhodder “£37.65”.

**11.** Yn Atodlen 8 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) ym mharagraff 4(2), ar ôl “Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensynwyr)” mewnosoder “neu pan fo’r ceisydd neu bartner y ceisydd yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
- (b) ym mharagraff 18, yn is-baragraff (2)(b)(iv)—
  - (i) ym mharagraff (aa), yn lle “yn eu tro” rhodder “, neu fod y ceisydd neu bartner y ceisydd yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
  - (ii) ym mharagraff (bb), yn lle “ac yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd” rhodder “, neu un aelod, o leiaf, o’r cwpl yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”.

**12.** Yn Atodlen 9 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) yn lle paragraff 20(g) rhodder—
  - “(g) pensiwn a delir gan lywodraeth i ddioddefwyr erledigaeth gan Sosialwyr Cenedlaethol.”;
- (b) ym mharagraff 41, yn is-baragraffau (1) a (7), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”.

**13.** Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) ym mharagraff 29—
  - (i) yn is-baragraff (1), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
  - (ii) yn is-baragraff (7), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
- (b) ym mharagraff 38, ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “, cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
- (c) ar ôl paragraff 63 mewnosoder—

“64. Unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o’r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”

14. Yn Atodlen 13 (pob ceisydd: materion y mae’n rhaid eu cynnwys mewn cynllun awdurdod — materion eraill), ym mharagraff 5(7)(a)(ii) (tystiolaeth a gwybodaeth), ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “, cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”.

### **Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

15. Mae’r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(1) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 16 i 33.

16. Ym mharagraff 2 (dehongli), yn is-baragraff (1)—

(a) yn y man priodol mewnosoder—

(i) “ystyr “cynllun gwaed cymeradwy” (“*approved blood scheme*”) yw—

(a) cynllun a sefydlir neu a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu ymddiriedolaeth a sefydlir gyda chyllid a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, at y diben o roi digollediad mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei heintio gan gynhyrchion gwaed halogedig; neu

(b) cynllun a sefydlir o dan adrannau 1 i 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(2) ac a weinyddir gan Ymddiriedolaeth Felindre(3) at y diben o wneud taliadau a rhoi cymorth i unigolion sydd wedi eu heintio â Hepatitis C, HIV neu’r ddau, drwy waed halogedig neu gynhyrchion gwaed halogedig a

---

(1) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21) ac O.S. 2017/46 (Cy. 20).

(2) 2006 p. 42.

(3) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre o dan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838, diwygiwyd gan O.S. 1999/826).

- ddefnyddir gan y GIG, neu mewn cysylltiad â hynny;”;
- (ii) “ystyr “Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain” yw’r cwmni sy’n dwyn yr enw “the London Emergencies Trust” (rhif 09928465) a ymgorfforwyd ar 23 Rhagfyr 2015 a’r elusen gofrestredig sy’n dwyn yr enw hwnnw (rhif 1172307) a sefydlwyd ar 28 Mawrth 2017;”;
  - (iii) “ystyr “aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith” (“*member of the work-related activity group*”) yw person sydd â galluedd cyfyngedig ar gyfer gwaith, neu berson a drinnir felly, o dan naill ai—
    - (a) Rhan 5 o Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008 ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 30 o’r Rheoliadau hynny; neu
    - (b) Rhan 4 o Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2013 ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 26 o’r Rheoliadau hynny;”;
  - (iv) “ystyr “Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban” yw’r cynllun sy’n dwyn yr enw “the Scottish Infected Blood Support Scheme” a weinyddir gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin (a gyfansoddwyd gan adran 10 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yr Alban) 1978);”;
  - (v) “ystyr “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” yw’r elusen gofrestredig sy’n dwyn yr enw “the We Love Manchester Emergency Fund” (rhif 1173260) a sefydlwyd ar 30 Mai 2017;”;
- (b) yn lle’r diffiniad o “cartref gofal” (“*care home*”) rhodder—
- “mewn perthynas â “cartref gofal” (“*care home*”)—
- (a) yn Lloegr mae iddo’r ystyr a roddir i “care home” gan adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000;
  - (b) ei ystyr yng Nghymru yw man lle y darperir gwasanaeth cartref gofal, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i oedolion yn gyfan gwbl neu’n bennaf;
  - (c) yn yr Alban mae iddo’r ystyr a roddir i “care home service” gan baragraff 2 o Atodlen 12 i Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (yr Alban) 2010; a

- (d) yng Ngogledd Iwerddon mae iddo'r ystyr a roddir i "nursing home" gan erthygl 11 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003 neu'r ystyr a roddir i "residential care home" gan erthygl 10 o'r Gorchymyn hwnnw;"
- (c) yn lle'r diffiniad o "lwfans cyflogaeth a chymorth prif wedd" ("*main phase employment and support allowance*") rhodder—  
 "ystyr "lwfans cyflogaeth a chymorth prif wedd" ("*main phase employment and support allowance*"), ac eithrio yn Rhan 1 o Atodlen 3, yw lwfans cyflogaeth a chymorth pan fo—
  - (a) cyfrifo'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r ceisydd yn cynnwys elfen o dan adran 2(1)(b) neu 4(2)(b) o Ddeddf Diwygio Lles 2007; neu
  - (b) y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith;"
- (d) yn y diffiniad o "person cymwys" ("*qualifying person*"), ar ôl "Sefydliad Caxton" mewnosoder ", cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester".

**17.** Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensynwyr a phersonau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "£12.70" rhodder "£13.10";
- (b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle "£4.20" rhodder "£4.35";
- (c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "£200.00" rhodder "£205.00";
- (d) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£200.00", "£346.00" ac "£8.40" rhodder "£205.00", "£355.00" ac "£8.70" yn y drefn honno;
- (e) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£346.00", "£430.00" a "£10.60" rhodder "£355.00", "£440.00" a "£10.95" yn y drefn honno;
- (f) yn is-baragraff (8)(a) ar ôl "lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm" mewnosoder "a phan na fo'r annibynnydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith";
- (g) yn is-baragraff (9)(b), ar ôl "Sefydliad Caxton" mewnosoder ", cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth

Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;

- (h) yn is-baragraff (9)(c) yn lle “.” rhodder “; a”;
- (i) ar ôl is-baragraff (9)(c) mewnosoder—

“(d) unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o’r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”

**18.** Ym mharagraff 36(1) (ystyr “incwm”: pensïynwyr)—

- (a) yn lle paragraff (j)(xiii) rhodder—

“(xiii) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014;”;

- (b) yn lle paragraff (m) rhodder—

“(m) pensiwn a delir gan lywodraeth i ddioddefwyr erledigaeth gan Sosialwyr Cenedlaethol;”.

**19.** Ym mharagraff 37 (cyfrifo incwm wythnosol: pensïynwyr)—

- (a) yn is-baragraff (3A)—

- (i) ym mharagraff (a) yn lle “ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio” rhodder “ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd”;

- (ii) yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—

“(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo’r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae’r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu

(c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd o gyflogaeth yn newid, er mwyn ei gwneud yn ofynnol ailgyfrifo o dan y paragraff hwn, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd.”;

- (b) yn is-baragraff (4A)—

- (i) ym mharagraff (a) yn lle “ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio” rhodder “ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd”;
- (ii) yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—
  - “(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo’r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae’r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu
  - (c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd o gyflogaeth yn newid a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd.”

**20.** Yn lle paragraff 44A (y dyddiad y cymerir i ystyriaeth incwm sy’n cynnwys enillion o gyflogaeth fel enillydd cyflogedig: personau nad ydynt yn bensiynwyr) rhodder—

**“Y dyddiad y cymerir i ystyriaeth incwm sy’n cynnwys enillion o gyflogaeth fel enillydd cyflogedig: personau nad ydynt yn bensiynwyr**

**44A.** Rhaid i enillion wythnosol cyfartalog ceisydd o gyflogaeth a amcangyfrifir yn unol â pharagraff 44 (enillion wythnosol cyfartalog enillwyr cyflogedig: personau nad ydynt yn bensiynwyr) gael eu hystyried—

- (a) yn achos cais, ar y dyddiad y gwnaed y cais neu’r dyddiad y cafodd y cais ei drin fel pe bai wedi ei wneud, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd;
- (b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo’r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae’r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu
- (c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd o gyflogaeth yn newid a



diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd.”

**21.** Ym mharagraff 53 (incwm tybiannol: personau nad ydynt yn bensynwyr), yn is-baragraff (4)(a), ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “, cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”.

**22.** Ym mharagraff 55 (trin costau gofal plant)—

(a) yn lle is-baragraff (8)(l) rhodder—

“(1) gan berson sydd wedi ei gyflogi, neu sy’n gweithredu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, i ddarparu gofal a chymorth gan ddarparwr gwasanaeth cymorth cartref, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; neu”;

(b) yn is-baragraff (11)(c), ar ôl “neu’r elfen gweithgaredd perthynol i waith” mewnosoder “neu y byddai’r aelod arall yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;

(c) yn is-baragraff (11)(e), ar ôl “neu’r elfen gweithgaredd perthynol i waith” mewnosoder “neu y byddai’r aelod arall o’r cwpl yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”.

**23.** Ym mhob un o’r darpariaethau a ganlyn, ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “, cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”—

(a) paragraff 61(7) (incwm a drinnir fel cyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr);

(b) paragraff 64(6)(a) (cyfalaf tybiannol);

(c) paragraff 111(7)(a)(ii) (tystiolaeth a gwybodaeth).

**24.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (Iwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle “£159.35” a “£172.55” rhodder “£163.00” a “£176.40” yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£243.25” a “£258.15” rhodder “£248.80” a “£263.80” yn y drefn honno;

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£243.25” a “£83.90” rhodder “£248.80” a “£85.80” yn y drefn honno;

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£258.15” a “£85.60” rhodder “£263.80” a “£87.40” yn y drefn honno;

- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
  - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£62.45” ym mhob man y mae'n digwydd rhodder “£64.30” ac yn lle “£124.90” rhodder “£128.60”;
  - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£24.78” rhodder “£25.48”;
  - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£60.90” rhodder “£62.86”;
  - (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£34.95” rhodder “£36.00”.

**25.** Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
  - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£73.85” ym mhob man y mae'n digwydd rhodder “£76.10” ac yn lle “£58.50” rhodder “£60.25”;
  - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£73.85” rhodder “£76.10”;
  - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£116.00” rhodder “£119.50”;
- (b) ym mharagraff 2(a) ar ôl “ceisydd” mewnosoder “neu fod y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
- (c) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
  - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “£32.55” a “£46.40” rhodder “£33.55” a “£47.80” yn y drefn honno;
  - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£62.45” ym mhob man y mae'n digwydd rhodder “£64.30” ac yn lle “£124.90” rhodder “£128.60”;
  - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£60.90” rhodder “£62.86”;
  - (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£34.95” rhodder “£36.00”;
  - (v) yn is-baragraff (5), yn lle “£24.78”, “£15.90” a “£22.85” rhodder “£25.48”, “£16.40” a “£23.55” yn y drefn honno;
- (d) yn Rhan 5 (yr elfennau), ym mharagraff 18(c)(ii) hepgorer “neu'r elfen gweithgaredd perthynol i waith”;
- (e) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau), ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle “£36.55” rhodder “£37.65”.

**26.** Yn Atodlen 4 (symiau a ddiystyrir o enillion ceisydd: pensïnwyr), ym mharagraff 5(1)(d)(ii) yn lle “neu’r elfen gweithgaredd perthynol i waith” rhodder “yn codi.”

**27.** Yn Atodlen 5 (symiau sydd i’w diystyru wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: pensïnwyr), yn lle paragraff 1(g) rhodder—

“(g) pensiwn a delir gan lywodraeth i ddioddefwyr erledigaeth gan Sosialwyr Cenedlaethol.”

**28.** Yn Atodlen 6 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensïnwyr)—

- (a) ym mharagraff 4(2), ar ôl “Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensïnwyr)” mewnosoder “neu pan fo’r ceisydd neu bartner y ceisydd yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
- (b) ym mharagraff 18, yn is-baragraff (2)(b)(iv)—
  - (i) ym mharagraff (aa), yn lle “yn eu tro” rhodder “, neu fod y ceisydd neu bartner y ceisydd yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”;
  - (ii) ym mharagraff (bb), yn lle “ac yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd” rhodder “neu fod un aelod, o leiaf, o’r cwpl yn aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith”.

**29.** Yn Atodlen 7 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: personau nad ydynt yn bensïnwyr)—

- (a) yn lle paragraff 20(g) rhodder—

“(g) pensiwn a delir gan lywodraeth i ddioddefwyr erledigaeth gan Sosialwyr Cenedlaethol.”;
- (b) ym mharagraff 41(1) a (7), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”.

**30.** Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensïnwyr)—

- (a) ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
- (b) ar ôl paragraff 28A mewnosoder—

“**28B.** Unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o’r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”

**31.** Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) ym mharagraff 29(1), ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “; cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
- (b) ym mharagraff 29(8), ar ôl “Sefydliad Caxton,” mewnosoder “cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
- (c) ym mharagraff 38, ar ôl “Sefydliad Caxton” mewnosoder “; cynllun gwaed cymeradwy, Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban, Ymddiriedolaeth Argyfyngau Llundain, Cronfa Argyfwng We Love Manchester”;
- (d) ar ôl paragraff 63 mewnosoder—

“**64.** Unrhyw daliad a wneir o dan ymddiriedolaeth, neu gan ymddiriedolaeth, a sefydlir at ddiben rhoi cymorth a chynhorthwy i bersonau anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd cymysgedd a oedd yn cynnwys y cyffur o’r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, ac a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.”

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion  
Cymru  
Dyddiad

**Explanatory Memorandum to the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2018.**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Strategic Finance Division and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2018. I am satisfied that the benefits outweigh any costs.

**Mark Drakeford**  
**Cabinet Secretary for Finance**  
**27 November 2017**

## **Description**

1. Council Tax Reduction Schemes (CTRS) are the mechanism through which local authorities provide support to low income households in meeting their council tax liability.
2. This statutory instrument makes amendments to both the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 and the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 (referred to collectively in this Explanatory Memorandum as “the 2013 CTRS Regulations”). It uprates certain figures used to calculate an applicant’s entitlement to a reduction under a Council Tax Reduction Scheme, and the subsequent level of reduction.
3. This instrument also makes consequential amendments as a result of changes to the wider welfare and tax system.

## **Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee**

4. None.

## **Legislative background**

5. Section 10 of, and Schedule 4 to, the Local Government Finance Act 2012 inserted a new Section 13A and new Schedule 1B into the Local Government Finance Act 1992 (“the 1992 Act”). These provisions enabled the Welsh Ministers to introduce Council Tax Reduction Schemes (“CTRS”) in Wales via regulations.
6. The relevant provisions in the Local Government Finance Act 2012 were subject to a Legislative Consent Motion which was approved by the National Assembly for Wales on 26 June 2012. The Local Government Finance Act 2012 received Royal Assent on 1 November 2012.
7. This statutory instrument is laid and made under the new section 13A of, and the new Schedule 1B to, the Local Government Finance Act 1992. The instrument is subject to approval of the Assembly (the affirmative procedure).

## **Purpose and intended effect of the legislation**

